

## **Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Cwm Taf, Practis  
Deintyddol N. Khan-Awal  
and Associates Ltd**

16 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163

**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)

**Ffacs:** 0300 062 8387

**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb .....	5
5.	Canfyddiadau .....	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal .....	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	11
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	14
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A.....	17

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddyd rhybudd o Bractis Deintyddol N. Khan-Awal and Associates Ltd, 5 Ceridwen Terrace, Pontypridd, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ar 16 Mehefin 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.<sup>1</sup> Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>2</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>3</sup> Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

---

<sup>1</sup> <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Cyd-destun

Mae N. Khan-Awal and Associates Ltd yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Pontypridd. Mae'r practis yn ffurfio rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae Practis Deintyddol N. Khan-Awal and Associates Ltd yn darparu gwasanaethau'r GIG yn bennaf, ond mae hefyd yn darparu nifer fach o wasanaethau preifat.

Mae Practis Deintyddol N. Khan-Awal and Associates Ltd yn bractis hyfforddi sefydledig ar gyfer deintyddion gyda Deoniaeth Cymru (Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol i Raddedigion). Ar adeg yr arolygiad hwn, roedd dau o'r deintyddion yn y practis yn ymgymryd â blwyddyn sylfaen o hyfforddiant deintyddol dan arweiniad y prif ddeintydd ac un o'r deintyddion cysylltiol.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un prif ddeintydd, tri deintydd cysylltiol, dau ddeintydd o dan hyfforddiant, ac 11 nyrs (gan gynnwys dwy nyrs o dan hyfforddiant ac un nyrs sydd wedi cymhwyso'n ddiweddar).

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol.

## 4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut mae Practis Deintyddol N. Khan-Awal and Associates Ltd yn bodoli'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol, a'u bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth gan holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol.

Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi ar gyfer cleifion mewn modd diogel. Canfuom fod pob ystafell driniaeth i'w gweld yn lân, yn daclus, ac wedi'i threfnu'n dda. Roedd y practis wedi dechrau archwiliad rheoli heintiau, gyda chymorth Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru, a gwnaethom argymhell ei fod yn cwblhau'r archwiliad hwn. Roedd sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod y nodiadau o safon uchel ar y cyfan. Gwnaethom argymhelliad ynglŷn â gwirio ffurflenni hanes meddygol.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Yn ystod arsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth gan holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael casglu barn cleifion ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 31 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Hefyd, gwnaethom siarad â phedwar claf ar ddiwrnod yr arolygiad. Ar y cyfan, roedd adborth gan y cleifion yn gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn gan y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintyddion.

Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Mae staff yn barod iawn eu cymwynas, a dw i'n teimlo'n gyfforddus. Maen nhw'n gwneud pob ymdrech er mwyn imi deimlo'n gysurus, gan fy mod i, fel y rhan fwyaf o bobl, yn teimlo'n nerfus ynglŷn â gweithdrefnau deintyddol.”*

*“Mae staff y practis yn barod iawn eu cymwynas, yn garedig, ac yn deall pob agwedd ar eu gwaith.”*

*“Deintydd rhagorol. Roedd safon ei waith yn uchel iawn. Diolch.”*

*“Cyfeillgar ac yn broffesiynol iawn. Mae'r deintyddion a'r nyrsys fel ei gilydd yn ardderchog!”*

*“Mae'r deintydd bob amser yn gwneud imi deimlo'n gysurus, ac yn esbonio pob gweithdrefn yn drwyadl. Fyddwn i byth yn mynd i'r unlle arall.”*

*“Proffesiynol iawn ac yn barod eu cymwynas. Gofal cwsmeriaid da. Mae'r apwyntiad bob amser ar amser. Mae'n hawdd mynd atyn nhw.”*

Dywedodd mwyafrif y cleifion eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwelsom arwydd yn ffenestr y



practis yn dangos y rhif cyswllt mewn argyfwng, a chadarnhawyd bod rhif cyswllt yn cael ei roi ar neges peiriant ateb y practis.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd y staff wrthym fod opsiynau triniaeth yn cael eu trafod gyda'r cleifion, a gwelsom dystiolaeth o hyn wedi ei chofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag mewn argyfwng, gan alluogi'r cleifion i gael eu gweld yn gyflym os bydd angen. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom siarad ag un claf a oedd yn cael ei weld ar gyfer apwyntiad brys ar yr un dydd. Roedd hyn yn cadarnhau bod y system yn gweithio.

Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael yn yr ystafell aros. Roedd gan y practis hefyd wybodaeth hyrwyddo iechyd yn y manau aros, gan gynnwys gwybodaeth ar glefyd y deintgig, bwyta'n iach, ac ymwybyddiaeth o ganser y geg. Dylai'r practis ystyried sut y gallai wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i ystod ehangach o gleifion. Er enghraifft, gellid defnyddio maint ffont/testun mwy a darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill gan gynnwys y Gymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan y cleifion.

Roedd gan y practis system dda ar gyfer casglu barn cleifion yn rheolaidd, trwy gynnal arolygon cleifion bob chwe mis ar gyfer pob deintydd, ac arolwg blynyddol o'r holl practis. Gwelsom fod y practis wedi dadansoddi'r canlyniadau, ac wedi paratoi adroddiad byr oedd yn crynhoi'r canfyddiadau a chasgliadau. Dywedwyd wrthym hefyd bod adborth yn cael ei drafod yn ystod cyfarfodydd y practis. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn defnyddio adborth cleifion er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Pan wnaethom ofyn am wneud cwyn, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn. Gwelsom fod y poster cwynion wedi'i arddangos yn yr ystafell aros, a bod gwybodaeth am wneud cwyn wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion. Gwelsom fod angen rhywfaint o ddiweddarau ar y poster cwynion, a rhoddwyd sylw i'r mater hwn gan y staff ar ddiwrnod yr arolygiad.

## ***Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal***

**Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi i gleifion mewn modd diogel. Gwelsom fod pob ystafell driniaeth yn lân, yn daclus, ac wedi'i threfnu'n dda. Roedd y practis wedi dechrau archwiliad rheoli heintiau, gyda chymorth Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru, a gwnaethom argymhell ei fod yn cwblhau'r archwiliad hwn. Roedd sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod y nodiadau o safon uchel ar y cyfan. Gwnaethom argymhelliad ynglŷn â gwirio ffurflenni hanes meddygol.**

### **Cyfleusterau Clinigol**

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob un o'r pum ystafell driniaeth yn y practis (mae un nad yw'n cael ei defnyddio), a chanfod eu bod yn cynnwys offer addas ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Roedd yr ystafelloedd triniaeth i gyd yn ymddangos yn lân, yn daclus, ac wedi eu trefnu'n dda. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal, er mwyn gwirio bod dyfeisiau trydanol bach yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

### **Dadheintio Offer Deintyddol**

Roedd gan y practis ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd un o'r ystafelloedd triniaeth nad oedd yn cael ei defnyddio'n cael ei defnyddio fel ail fan dadheintio. Gwelsom fod prosesau ar waith i atal cleifion rhag croes-heintio. Roedd y ddwy ystafell wedi'u trefnu mewn ffordd addas ar gyfer glanhau offer yn effeithiol. Roedd hefyd system addas ar gyfer sicrhau bod offer deintyddol yn cael eu defnyddio o fewn y cyfnod storio a argymhellir.

Gwelsom fod y polisi rheoli heintiau/dadheintio wedi ei arddangos ar y wal. Gwelsom hefyd fod llyfrau cofnodi wedi cael eu cwblhau ar gyfer y broses ddyddiol o wirio a chynnal a chadw offer glanhau. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis system dda ar gyfer sicrhau bod offer glanhau yn gweithio'n iawn, er mwyn glanhau offer deintyddol yn effeithiol.

Roedd sincipiau neilltuedig ar gyfer golchi dwylo er mwyn helpu i reoli heintiau, ac roedd yr holl gyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff a oedd yn cyflawni'r gwaith o ddadheintio. Gwnaethom arsylwi ar aelod o staff yn cynnal y broses o ddadheintio, a chadarnhau bod y cyfarpar yn cael ei wisgo. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar weithdrefnau dadheintio a rheoli heintiau. Roedd y practis wedi cynnal ei archwiliadau ei hun

o ddadheintio a golchi dwylo, ac yn ddiweddar roedd wedi dechrau archwiliad trwy ddefnyddio'r dull a gefnogir gan Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru, fel yr argymhellir gan ganllawiau penodol i Gymru Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.<sup>4</sup> Gwnaethom argymhell bod y practis yn cwblhau'r archwiliad hwn.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid cwblhau archwiliad rheoli heintiau (argymhellir bod y practis yn defnyddio'r dull a gefnogir gan Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru). Dylid hefyd datblygu cynllun gwella er mwyn mynd i'r afael â'r materion y tynnir sylw atynt gan yr archwiliad rheoli heintiau.***

### **Gwaredu gwastraff**

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu yn briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff cyfredol ar waith.

### **Offer radiograffeg (pelydr-X)**

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd y ddogfennaeth berthnasol ar gael, gan gynnwys dogfennau gwiriadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o staff clinigol cymwysedig (ar wahân i un nyrs a oedd wedi cymhwyso'n ddiweddar) wedi cwblhau hyfforddiant priodol ar amddiffyn rhag ymbelydredd/ymbelydredd ïoneiddio. Gwelsom fod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, sy'n cynnwys manylion am yr offer a'r gweithdrefnau pelydr-X i'r staff eu dilyn, yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

### **Offer meddygol brys a meddyginiaeth frys**

Roedd gan staff fynediad at gyfarpar dadebru a meddyginiaeth pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu) yn y practis. Roedd gan y practis system addas ar waith i sicrhau bod yr offer dadebru a'r feddyginiaeth at ddibenion argyfwng yn cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, gwelsom fod dyddiad dod i ben y llwybrau anadlu a'r mwgwd ocsigen wedi mynd heibio, a gwnaethom argymhell bod y practis yn newid yr eitemau hyn ac adolygu ei restr wirio.

---

<sup>4</sup>Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis adolygu'r system ar gyfer gwirio offer dadebru, a sicrhau bod yr holl gyfarpar, gan gynnwys llwybrau anadlu a mygydau ocsigen, yn addas i'w ddefnyddio.***

Gwelsom fod siartiau llif ar gyfer argyfyngau meddygol wedi'u cynnwys gyda'r feddyginiaeth frys, er mwyn dangos i staff y weithdrefn y dylid ei dilyn. Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn y practis wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a bod swyddogion cymorth cyntaf penodedig. Roedd hyn yn golygu bod gan y staff y sgiliau angenrheidiol, a mynediad at offer a chyffuriau achub bywyd, i'w galluogi i ymateb yn brydlon pe bai un o'r cleifion yn llewygu.

### **Cofnodion cleifion**

Gwnaethom edrych yn fanwl ar gyfanswm o 16 cofnod claf, gan gynnwys cofnodion pob un o'r pedwar deintydd. Ni wnaethom edrych ar gofnodion y ddau ddeintydd o dan hyfforddiant yn fanwl ar yr achlysur hwn. Ar y cyfan, gwelsom fod safon y gwaith o gadw cofnodion cleifion yn uchel.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio system lle roedd y deintydd yn cydlofnodi ffurflenni hanes meddygol er mwyn sicrhau a dogfennu bod y ffurflenni hyn yn cael eu gwirio a'u trafod â'r cleifion. Fodd bynnag, canfuom nad oedd ffurflenni hanes meddygol ar gyfer dau ddeintydd bob amser wedi cael eu cydlofnodi.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai system y practis ar gyfer sicrhau bod ffurflenni hanes meddygol yn cael eu gwirio gan y deintydd a'u trafod â'r cleifion (hynny yw, cydlofnodi) gael ei defnyddio'n gyson gan bob deintydd sy'n gweithio yn y practis.***

Gwnaethom hefyd edrych ar amllder cynnal sganiau pelydr-X ar gyfer cleifion. Er bod yr amllder hwn yn briodol yn y rhan fwyaf o achosion, ar gyfer un claf gwelsom fod y cyfnod rhwng sganiau pelydr-X yn rhy hir. Gwnaethom dynnu sylw'r prif ddeintydd at y mater hwn, a chytunodd i drafod y mater hwn â'r deintydd o dan sylw er mwyn sicrhau nad yw'r broblem yn un fwy cyffredin.

Roedd gweithdrefnau triniaeth ac opsiynau'n cael eu trafod â chleifion ar lafar, ond roedd y practis hefyd yn defnyddio pecynnau addysg a fideos y gellid cael eu dangos i gleifion er mwyn egluro hylendid y geg a gwahanol driniaethau. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn derbyn gwybodaeth berthnasol er mwyn iddynt ystyried eu hopsiynau triniaeth.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Yn ystod arsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm.**

Perchennog annibynnol Practis Deintyddol N. Khan-Awal and Associates Ltd yw'r prif ddeintydd. Y prif ddeintydd a oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, gydag un o'r uwch-nyrsys, a oedd yn cyflawni rôl cydlynedd y practis. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg mewn ffordd effeithlon, a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad eu bod yn hapus yn eu swyddi ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan y prif ddeintydd a chydlynedd y practis.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith, ac roedd system addas ar gael i sicrhau bod y polisiâu hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod y staff yn ymwybodol ohonynt. Gwelsom fod y polisiâu a'r dogfennau'n drefnus, ac roedd yn hawdd dod o hyd iddynt ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom fod rhaglen ymsefydlu ar gyfer staff newydd, ac unrhyw staff dros dro a staff asiantaeth, a oedd yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r polisiâu perthnasol.

Roedd cyfarfodydd ar gyfer pob aelod o staff yn cael eu cynnal rhwng tua phob tri mis a phob chwe mis, ond roedd cyfarfodydd rhwng y nyrsys yn cael eu cynnal yn fwy rheolaidd. Gwelsom enghreifftiau o nodiadau cyfarfod nyrsys diweddar, a oedd yn nodi trafodaethau a chymau gweithredu. Dywedwyd wrthym fod staff yn cael eu hannog i leisio unrhyw bryderon yn ystod y cyfarfodydd hyn, ond dywedodd staff wrthym hefyd y byddent yn gyfforddus i leisio pryderon wrth y prif ddeintydd, neu wrth gydlynedd y practis, ar unrhyw adeg.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion, a oedd yn dangos bod staff yn derbyn arfarniadau blynyddol. Mae arfarniadau'n bwysig er mwyn sicrhau cymhwysedd staff ac i nodi unrhyw anghenion hyfforddi.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau llywodraethu clinigol a oedd ar waith yn y practis, a gweld bod amryw archwiliadau wedi cael eu cynnal a'u dogfennu.

Roedd y practis hefyd wedi cynnal y ddeintyddiaeth matrices aeddfedrwydd<sup>5</sup> (math o archwiliad hunanasesu). Roedd hyn yn golygu bod gan y practis drefniadau llywodraethu clinigol addas ar waith i helpu i sicrhau ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir.

Gwnaethom edrych ar wybodaeth am y staff yn y practis. Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol. Gwelsom hefyd samplau o gofnodion a oedd yn dangos bod gan yr holl staff gontractau cyflogi.

Yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat, roedd y deintyddion a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'u cofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis. Roedd y practis wedi cymryd camau rhagweithiol cyn yr arolygiad er mwyn diweddarau dwy o'r tystysgrifau.

Gwelsom enghreifftiau o ffeiliau datblygiad proffesiynol parhaus personol (hyfforddiant) a gwblhawyd gan staff yn y practis, ac roedd y rhain yn dangos bod staff wedi cael cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion fod yn sicr eu bod yn derbyn triniaeth gan staff sydd â sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol, ac sy'n hyderus a chyfarwydd â'u gweithle. Roedd ffeiliau staff yn drefnus, ac roedd yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth.

Ar adeg ein harolygiad, roedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwnaethom hefyd ganfod bod gan holl aelodau eraill y staff wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer cyflogaeth.

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau. Roedd trefniadau addas ar gyfer cymorth iechyd galwedigaethol hefyd ar waith drwy'r bwrdd iechyd lleol. Gwelsom gofnodion i ddangos bod yr

---

<sup>5</sup>Mae'r Ddeintyddiaeth Matrics Aeddfedrwydd yn ddull o ddatblygu ymarfer ar gyfer y tîm deintyddol trwy Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru. Mae dull hunanasesu'r ddeintyddiaeth matrices aeddfedrwydd yn galluogi'r tîm deintyddol i roi sylw i'r ffordd maent yn gweithio, ac i feddwl am ansawdd y gofal a ddarperir mewn meysydd ac agweddau allweddol. <http://www.walesdeanery.org/index.php/cy/practice-quality-improvement-programme/deintyddiaeth-matrices-aeddfedrwydd.html>

holl staff clinigol wedi cael brechiadau priodol i'w gwarchod rhag firysau a gludir yn y gwaed.

Canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi pryderon (cwynion) ac ymateb iddynt. Roedd hefyd daflen a oedd yn rhoi crynodeb o'r cwynion roedd y practis wedi'u derbyn Gwnaethom argymell bod y practis yn cynnwys manylion pellach ynglŷn â natur y gŵyn ar y daflen hon, er mwyn hwyluso nodi unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg. Gwnaethom hefyd argymell bod y practis yn ychwanegu manylion pellach i'r cofnodion cwynion, er mwyn rhoi crynodeb o'r camau a gymerwyd a statws y gŵyn, ac i hwyluso archwiliadau. Gwelsom fod yr holl ohebiaeth am gwynion yn cael ei chadw gyda'i gilydd mewn ffeil bapur. Roedd cwynion llafar a chwynion anffurfiol hefyd yn cael eu cofnodi.

Gwelsom fod y broses gwyno at ei gilydd yn cydymffurfio â'r trefniadau yn y weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion y GIG o'r enw Gweithio i Wella, ac roedd yn cynnwys rhestr o sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw pe byddai ganddynt gŵyn. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen diweddarau'r amserlen ar gyfer cydnabod cwynion, yn unol â threfniadau Gweithio i Wella. Gwnaethom hefyd argymell bod y practis yn cynnwys manylion cyswllt y cyngor iechyd cymuned, a allai ddarparu cymorth eiriolaeth i gleifion pe bai angen hynny. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ar wahân ar waith ar gyfer cleifion a oedd yn derbyn triniaeth breifat, a oedd yn cydymffurfio â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau'r amserlen ar gyfer ymateb i gwynion yn unol â'r rheoliadau. Unwaith eto, aethpwyd i'r afael â'r mater hwn ar ddiwrnod yr arolygiad.

## ***Ansawdd yr Amgylchedd***

**Gwelsom fod y practis i'w weld yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, er mwyn darparu amgylchedd diogel ar gyfer cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth. Ar y cyfan, mae mynediad i'r practis yn addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn, ond mae'n bosibl y gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn fwy gael anhawster.**

Lleolir y practis yng nghanol tref Pontypridd. Mae gan y practis chwe ystafell driniaeth (mae un nad yw'n cael ei defnyddio), tair ar y llawr daear a thair ar y llawr cyntaf. Mae gan y practis leoedd parcio cyfyngedig y tu ôl i'r adeilad, sy'n cael eu defnyddio gan staff, ond maent hefyd yn gallu cael eu defnyddio ar gyfer cleifion sydd ag anabledd. Mae lleoedd parcio cyhoeddus ar gael ar bwys y practis.

At ei gilydd, mae mynediad i'r practis yn addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn, am fod ramp concrit yn arwain o'r llwybr at y drws ffrynt. Fodd bynnag, roedd fframiau'r drysau o faint safonol, a allai hyn achosi problemau ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn fwy. Nid oes lifft i'r llawr cyntaf, ond gall defnyddwyr cadair olwyn gael eu gweld yn yr ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear.

Dangosodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn ôl pob golwg. Roedd y practis yn lân ac yn daclus drwyddo draw. Roedd y manau aros a'r dderbynfa o faint addas ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth.

Roedd gan y practis un tŷ bach hygyrch i gleifion ar y llawr daear, un tŷ bach neillryw i gleifion a staff ar y llawr cyntaf, ac un tŷ bach neillryw i staff ar yr islawr. Roedd pob tŷ bach i'w weld yn lân, ac roedd cyfleusterau ymolchi dwylo addas ar gael er mwyn rheoli heintiau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y canllaw addasadwy yn y tŷ bach i gleifion wedi dechrau dod yn rhydd, ac roedd angen ei dynhau er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid sicrhau bod y canllaw yn y tŷ bach hygyrch i gleifion yn ddiogel i'w ddefnyddio.***

Roedd arwydd y tu allan i'r practis ac arno oriau agor y practis a'r rhif cyswllt mewn argyfwng. Roedd enwau a chymwysterau'r aelodau o staff wedi'u harddangos yn y dderbynfa. Ychwanegwyd y rhifau cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y staff clinigol at y wybodaeth hon ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd rhestrau prisiau wedi'u harddangos yn y dderbynfa ac yn y



man aros. Nid oedd rhestr o brisiau triniaeth breifat, ond ychwanegwyd hon ar ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd cofnodion cynnal a chadw'n dangos bod diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio'n briodol. Ni wnaethom edrych yn fanwl ar y trefniadau eraill ar gyfer amddiffyn rhag tân ac atal tân yn ystod yr arolygiad hwn. Fodd bynnag, mae'r practis yn gyfrifol am sicrhau bod systemau amddiffyn tân addas ar waith yn unol â'r deddfwriaeth,<sup>6</sup> a bod trefniadau ar gyfer profi a gwasanaethu'r eitemau hyn i helpu i sicrhau diogelwch staff a chleifion pe bai tân.

Roedd cofnodion a gwybodaeth am gleifion yn cael eu storio'n ddiogel, ac roedd cofnodion electronig yn cael eu cadw ar weinydd allanol bob dydd. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd mesurau i ddiogelu a gwarchod cleifion a'u gwybodaeth.

---

<sup>6</sup>Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn darparu deddfwriaeth mewn perthynas â diogelwch tân mewn adeiladau annomestig.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol N. Khan-Awal and Associates Ltd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Practis Deintyddol N. Khan-Awal and Associates Ltd**

**Dyddiad yr Arolygiad: 16 Mehefin 2015**

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<b>Profiad y Claf</b>			
	-			
	<b>Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal</b>			
9	Dylid cwblhau archwiliad rheoli heintiau (argymhellir bod y practis yn defnyddio'r dull a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerdydd). Dylid hefyd datblygu cynllun gwella er mwyn mynd i'r afael â'r materion y tynnir sylw atynt gan yr archwiliad rheoli heintiau. [Canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 1.8]	Mae'r practis yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r gwaith o reoli heintiau gan y staff, ac mae pob archwiliad yn cael ei lofnodi'n unigol. Rydym hefyd yn cynnal hyfforddiant ac archwiliadau mewnol blynyddol ar gyfer pob aelod o'r tîm mewn perthynas â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Rydym wedi cynnal archwiliad allanol gyda'r Gymdeithas Rheoli Heintiau, mewn partneriaeth â'r Adran Iechyd, a	Nasrin Khan Awal/ Leanne Woodward	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		chawsom sgôr gyffredinol o 90%. Rydym bellach wedi cwblhau'r archwiliad, gan ddefnyddio dull a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerdydd ac a gafodd ei ryddhau yn ystod y 18 mis diwethaf, mewn perthynas â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.		
9	Dylai'r practis adolygu'r system ar gyfer gwirio offer dadebru, a sicrhau bod yr holl gyfarpar, gan gynnwys llwybrau anadlu a mygydau ocsigen, yn addas i'w ddefnyddio. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.3; Canllawiau Cyngor Dadebru'r DU]	Rydym yn gwirio dyddiadau dod i ben bob mis, ac wedi rhoi rhestr wirio fwy manwl ar waith fel yr argymhellwyd.	Lauren Reddy	Cwblhawyd
10	Dylai system y practis ar gyfer sicrhau bod ffurflenni hanes meddygol yn cael eu gwirio gan y deintydd a'u trafod â'r claf (hynny yw, cydlofnodi) gael ei defnyddio'n gyson gan bob deintydd sy'n gweithio yn y practis. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1]	Diben polisiâu'r practis ar gyfer hanes meddygol yw sicrhau bod hanes meddygol cleifion yn cael ei wirio gan y deintydd a'i drafod â'r claf, ac wedyn yn cael ei gydlofnodi gan y clinigydd a'r claf yn rheolaidd, fel yr argymhellir gan ein hundeb amddiffyn. Rydym wedi newid ein polisi er mwyn sicrhau bod taflenni hanes meddygol yn cael eu llofnodi a'u cydlofnodi ar gyfer pob cwrs o driniaeth.	Nasrin Khan Awal	Cwblhawyd
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
	-			

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd yr Amgylchedd			
14	Dylid sicrhau bod y canllaw yn y tŷ bach hygyrch i gleifion yn ddiogel i'w ddefnyddio. [Safonau Iechyd a Gofal 2.1]	Mae sgriwiau'r canllaw ar gyfer pobl anabl bellach wedi cael eu tynhau er mwyn ei wneud yn ddiogel i'w ddefnyddio.	Nasrin Khan Awal	Cwblhawyd

### Cynrychiolydd y practis:

**Enw (llythrennau bras):** Nasrin Khan Awal

**Teitl:** Prif Ddeintydd

**Dyddiad:** 22/7/15